Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 10 Hydref 2018
Yr ATRiuM, Prifysgol De Cymru, Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Awen Iorwerth, Dr Euryn Roberts, Llŷr Roberts

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Gwawr Jones, Lynwen Roberts, Sioned Roberts, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady, Sara Whittam

Aelodau (Myfyrwyr): Cerys Griffiths, Anna Jones, Cathrin Jones, Rebecca Martin, Gethin Morgan

Aelodau (Addysg Bellach): Carys Swain

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur (Rheolwr Academaidd) Dr Lowri Morgans (Rheolwr Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Lisa Lewis, Delyth Murphy, Bryn Hughes Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Catrin Haf Williams, Dr Prysor Williams, Llion Carbis, William Chidley, Rhian Davies

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Estynnwyd croeso i Dr Euryn Roberts i'w gyfarfod cyntaf. 1.3. Croesawyd Dr Gwawr Jones ar ran yr Athro Lisa Lewis a Lynwen Roberts ar ran Dr Catrin Haf Williams. Dymunwyd yn dda i Dr Catrin Haf Williams. 1.4. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19. Nodwyd y penodwyd y canlynol: **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain** – Llion Carbis, Prifysgol Caerdydd a Cathrin Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Orllewin – Rebecca Martin, Prifysgol Abertawe a Cerys Griffiths, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **Cynrychiolwyr Prifysgolion y Gogledd Orllewin** – Anna Jones, Prifysgol Aberystwyth a William Chidley, Prifysgol Bangor **Cynrychiolydd Ôl-raddedig** – Rhian Davies, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **Swyddog UCMC** – Gethin Morgan 1.5. Diolchwyd i Adam Jones, Swyddog Datblygu Cyflogwyr a Myfyrwyr, am drefnu diwrnod anwytho'r myfyrwyr ar 14 Medi 2018. 1.6. Estynnwyd cydymdeimlad y Bwrdd i Dr Dylan Phillips yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar pan gollodd ei dad. 1.7. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Siwan Davies ar ei phenodi'n Pennaeth Adran Ddaearyddiaeth, Prifysgol Abertawe. 1.8. Nodwyd bod yr Athro Enlli Thomas wedi camu lawr o gadeiryddiaeth Cangen Prifysgol Bangor a phenodir ei holynydd yn dilyn cyfarfod nesaf y Gangen. 1.9. Nodwyd ymhellach bod yr Athro Carwyn Jones wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd Academaidd a bydd y Coleg yn penodi cynrychiolydd yn ei le maes o law. 1.10. Diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth a'u cyfraniadau ers sefydlu'r Bwrdd Academaidd.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai2018	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Cylch Gorchwyl (Eitem 4)	4.1. Nodwyd y diwygiwyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Academaidd y llynedd yn sgil adolygiad i lywodraethiant y Coleg. 4.2. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfeirio at ddarlithwyr cysylltiol yn hytrach na staff academaidd a derbyn y cylch gorchwyl. 4.3. Atgoffwyd yr aelodau mai Delyth Murphy yw is-gadeirydd y Bwrdd Academaidd.	Cylch gorchwyl i'w ddiwygio	Hydref 2018
5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	5.1. Cafwyd diweddariad cyffredinol gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau. Adroddwyd bod y Coleg wedi hysbysebu am bedwar cyfarwyddwr newydd yn dilyn yr adolygiad llywodraethiant diweddar. 5.2. Adroddwyd nad oedd datblygiadau pellach i adrodd arnynt ar hyn o bryd ynghylch amserlen sefydlu'r corff newydd ôl-16 yng Nghymru (PCET). 5.3. Adroddwyd bydd y Coleg yn paratoi Cynllun Strategol newydd eleni. 5.4. Adroddwyd bod y cyfarfodydd cynllunio gyda'r prifysgolion yn parhau a bod trefniadau'r grantiau pynciol yn llawn weithredol. 5.5. Adroddwyd bod Cynllun yn cael ei baratoi i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc a bod digwyddiad wedi ei gynnal yn yr Eisteddfod yng nghwmni Gweinidog y Gymraeg, Eluned Morgan. Mae'r Coleg yn cydlynu'r Cynllun gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. 5.6. Tynnwyd sylw at yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef 'Gwerthusiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg gychwynnol athrawon'. Cafwyd trafodaeth ar agweddau o'r adroddiad a nodwyd nad oedd cyfeiriad ynddo at dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Coleg yn cyfleu'r safbwynt a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis Mehefin 2017.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	5.7. Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu i ffurfioli'r berthynas gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW). 5.8. Cafwyd diweddariad ar ehangu cyfrifoldebau'r Coleg i faes addysg bellach gan y Cofrestrydd. Lluniwyd cynllun strategol erbyn Gorffennaf 2018 yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y sector. 5.9. Nodwyd y gwahaniaethau addysgol rhwng meysydd addysg uwch ac addysg bellach, a phwysigrwydd cynllunio cyfannol. 5.10. Nodwyd bod y gwaith i ddatblygu adnoddau wedi cychwyn ond nad oedd sicrwydd ynghylch y sefyllfa gyllidol eto. Bydd cylchlythyr i'r sector cyn bo hir. 5.11. Nodwyd y bwriad o sefydlu corff cyfatebol i'r Bwrdd Academaidd ar gyfer maes addysg bellach.		
6. Cyflwyniad ar ddata	6.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar ddata myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Cofrestrydd. 6.2. Adroddwyd y bu sylw yn y wasg dros yr haf ynghylch y cwymp mewn nifer o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn deillio o batrwm adrodd un brifysgol yn bennaf. 6.3. Nodwyd y dadansoddiad ar batrymau ceisiadau UCAS; myfyrwyr sy'n astudio'n Gymraeg; fesul pwnc; a fesul 40 credyd; a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru. 6.4. Yn dilyn trafodaeth nodwyd: • Pwysigrwydd cysondeb cofnodi a chasglu data ar hyd y sefydliadau • Targedau ystyrlon hirdymor • Amddiffyn darpariaeth lefel uchel • Goblygiadau Prosiect Seren • Hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n astudio tu allan i Gymru e.e. cwrs preswyl Doctoriaid Yfory • Gyda gwasgedd ar gyllidebau, pwysigrwydd data		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	6.5. Adroddwyd bod y prifysgolion eisoes wedi cytuno ar dargedau ar gyfer 2018/19 a 2019/20, a bod data HESA ar gyfer 2017/18 i'w gyhoeddi. 6.6. Nododd y Prif Weithredwr bod y Coleg, ar gais Llywodraeth Cymru, wedi cyflwyno adroddiad ar faterion cysylltiedig â data. Mae'r adroddiad yn cynnwys dros ugain o argymhellion ac mae trafodaethau yn parhau.		
7. Materion y myfyrwyr (Eitem 7)	7.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar amlinellu a diffinio'r gweithrediad o gyflwyno gwaith yn y Gymraeg gan Rebecca Martin. 7.2. Croesawyd a chanmolwyd y papur gan yr aelodau ac yn dilyn trafodaeth nodwyd: • Ymgynghoriad â'r QAA sydd eisoes ar y gweill ynghylch canllawiau asesu yn y Gymraeg • I godi mater llawlyfrau trwy brosesau mewnol y prifysgolion a'r canghennau • Pwysigrwydd llais y myfyrwyr 7.3. Cytunwyd i rannu papur y myfyrwyr gyda'r canghennau. 7.4. Cytunwyd i adrodd nôl ar ddogfennaeth y QAA maes o law.	Cyfarfod cangen nesaf i drafod y papur Diweddariad ar QAA	Tymor yr Hydref 2018 Amserlen y QAA
8. Cyflwyniad gan Brifysgol De Cymru	8.1. Darparwyd cyflwyniad gan Catrin Evans, Swyddog Cangen Prifysgol De Cymru. 8.2. Diolchwyd iddi am y cyflwyniad a oedd yn arddangos sut mae'r gangen yn cael ei chynnal ar draws amryw gampysau'r brifysgol.		
9. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 10)	9.1. Cyflwynwyd papur yn amlinellu cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi a phroses penodi aelodau o'r Bwrdd Academaidd i'r pwyllgor gan Mari Fflur. 9.2. Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y cylch gorchwyl gydag ychwanegiad ynghylch amrywiaeth a chydraddoldeb.	Diwygio'r cylch gorchwyl	Hydref 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	9.3. Cymeradwywyd yr argymhellion ynghylch aelodaeth a thymor aelodaeth y pwyllgor gan gynnwys cadarnhau'r Athro Jerry Hunter fel cadeirydd y pwyllgor. 9.4. Argymhellwyd penodi un aelod arall i'w gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd. 9.5. Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 14 Mehefin 2018, er gwybodaeth. 9.6. Adroddwyd bod y pwyllgor yn y broses o ddatblygu pencampwyr ymchwil ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. 9.7. Adroddwyd y lansiwyd Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru ar 27 Medi 2018. Datganwyd diolch i Wyn Thomas, un o'r golygyddion, ar ei gyfraniad nodedig i'r Coleg a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar achlysur ei ymddeoliad o Brifysgol Bangor. 9.8. Adroddwyd bod Gwerddon Fach, partneriaeth newydd rhwng y Coleg a Golwg 360, yn cyhoeddi erthyglau ar gyfer cynulleidfa leyg. 9.9. Adroddwyd bod Dr Anwen Jones, Golygydd Gwerddon, wedi ei phenodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor (dros dro) Prifysgol Aberystwyth.	Cadarnhau penodi aelod pellach	6 Chwefror 2019
10. Cynlluniau pynciol (Eitem 8)	10.1. Cyflwynwyd y cynlluniau pynciol canlynol: • Cyfrifiadureg a Pheirianneg • Athroniaeth • Gwleidyddiaeth • Gwyddorau Cymdeithas a Pholisi Cymdeithasol • Cerddoriaeth • Proffesiynau Iechyd • Seicoleg 10.2. Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y cynlluniau gyda mân newidiadau. Cytunwyd i drosglwyddo unrhyw wybodaeth ychwanegol i LM.	LM i ddiwygio'r cynlluniau yn sgil gohebiaeth e-bost	

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.3. Nodwyd nad oedd adnoddau gan y Coleg i gyfieithu'r cynlluniau ar hyn o bryd ond cydnabuwyd yr angen i'w rhannu ymysg sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. 10.4. Adroddwyd mai cynlluniau Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddiaeth; Cymraeg (sydd i'w gymhathu â Strategaeth Llywodraeth Cymru); ac Addysg sydd i'w cyflwyno nesaf.		
11. Gwobrau'r Darlithwyr Cysylltiol (Eitem 9)	11.1. Cyflwynwyd papur ar wobrwyo darlithwyr cysylltiol gan Dr Lowri Morgans. 11.2. Nodwyd y cynhelir y noson wobrwyo am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2019 ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cynhelir cynhadledd ar 26 Mehefin 2019. 11.3. Derbyniwyd y cysyniad ac yn dilyn trafodaeth nodwyd: • Pwysigrwydd gwobrwyo unigolion yn unol â blaenoriaethau'r Coleg • Llais y myfyrwyr - enwebu ac ar y panel dyfarnu • Aelod allanol ar y panel dyfarnu		
12. Ehangu mynediad a chyfranogiad (Eitem 11)	12.1. Derbyniwyd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogiad, er gwybodaeth. 12.2. Adroddwyd y bwriad o gyllido dau brosiect mewn cymunedau penodol. 12.3. Nodwyd y bydd eitem sefydlog yng nghyfarfod yr Hydref yn rhoi diweddariad ar y cynllun gweithredu.	Eitem sefydlog – diweddariad ar y cynllun gweithredu	Yn flynyddol yn nhymor yr Hydref
13. Marchnata a Chyfathrebu (Eitem 12)	13.1. Derbyniwyd Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu'r Coleg, yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu, er gwybodaeth. 13.2. Estynnwyd gwahoddiad i'r Rheolwr Cyfathrebu i roi cyflwyniad ar y strategaeth yn y dyfodol. 13.3. Nodwyd gwerthfawrogiad y myfyrwyr am y negeseuon cyson gan y Coleg ar Instagram a thrydar. Canmolwyd	Cyflwyniad i'r BA	Haf 2019

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gwaith y llysgenhadon yn ogystal. 13.4. Nodwyd gwerthfawrogiad targedu gwahanol ddisgyblaethau â negeseuon gwahanol a phenodol.		
14. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (Eitem 13)	14.1. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, 25 Ebrill 2018, er gwybodaeth. 14.2. Adroddwyd bod adolygiad o gylch gorchwyl y pwyllgor yn yr arfaeth. 14.3. Nodwyd bod Huw Morris, cadeirydd y pwyllgor, yn ymddeol a diolchwyd iddo am ei waith yn cadeirio'r pwyllgor ers y dechrau.		
15. Materion yn codi	15.1. Eitem 12.1: Cofnodion Bwrdd Cyfarwyddwyr: Er gwybodaeth mae cofnodion y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar wefan y Coleg.		
16. UFA	16.1 Nodwyd pryder ynghylch achos o gyfieithydd yn derbyn cais i gyfieithu traethawd myfyriwr. 16.2 Nodwyd ymhellach pryder myfyrwyr cyfrwng Saesneg am ddiffyg cyfleoedd am ddysgu Cymraeg. Argymhellwyd cysylltu â swyddogion y canghennau i dderbyn rhagor o wybodaeth.		
17. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	17.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 6 Chwefror 2019, Prifysgol Glyndŵr • 8 Mai 2019, Prifysgol Caerdydd 17.2. Diolchwyd i Brifysgol De Cymru am y croeso ac am letya'r cyfarfod.		